Dydd Gwener 4 Mehefin 2010
DATGANIAD I'R WASG

Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru 2010

Cawn wybod cyn diwedd y dydd yfory pa gystadleuwyr o Eisteddfod Ceredigion fydd yn cael eu gwahodd i ddychwelyd i gystadlu am Ysgoloriaeth Bryn Terfel 2010.

Yn cystadlu am y wobr ariannol bydd y buddugol yn y cystadlaethau dan 25 oed fel a ganlyn; Cyflwyniad Theatrig, Llefaru Unigol, Unawd allan o Sioe Gerdd, Unawd Offerynnol, Unawd, Unawd Alaw Werin, Unawd Cerdd Dant a Dawns Werin Unigol.

Cynhelir yr Ysgoloriaeth eleni ar nos Sadwrn, 16 Hydref 2010 ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Cyn hynny, bydd y cystadleuwyr yn mynychu dosbarthiadau meistri fydd yn eu galluogi i dderbyn hyfforddiant yn ogystal â chyngor gan arbenigwyr yn eu maes.

Bydd yr enillwyr yn cystadlu am £4,000 i'w ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant pellach mewn maes arbenigol. Mi wnaeth enillydd yr ysgoloriaeth y llynedd, Catrin Angharad Roberts, o Ynys Môn elwa'n fawr o'r profiad:

''Roedd ennill Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru 2009 yn brofiad gwerth chweil. Mi wnes i elwa'n fawr o'r dosbarthiadau meistri yn ogystal â'r cyngerdd mawreddog. O ganlyniad, rwyf wedi cael fy ngwahodd i berfformio mewn sawl cyngerdd ac wedi cystadlu mewn nifer o Eisteddfodau lleol gyda Llan Bob Man, parti bechgyn rwyf wedi'i ffurfio ar yr ynys.''

Ar hyn o bryd, mae Catrin yn gweithio fel cymhorthydd dosbarth yn Ysgol Gynradd Llannerchymedd, ac mae wedi'i derbyn i ddilyn cwrs dysgu ym Mhrifysgol Bangor fis Medi. Yn 2011, mae Catrin yn gobeithio defnyddio'i hysgoloriaeth i ryddhau CD fel yr eglura:

''Rwyf newydd ddechrau mynychu gwersi canu gyda Mary Lloyd Jones yn Y Galeri, Caernarfon. Flwyddyn nesaf, hoffwn gynhyrchu CD o'm gwaith a bydd yr ysgoloriaeth yn help mawr tuag at gyflawni hynny. Hoffwn ddiolch i Bryn Terfel ac Urdd Gobaith Cymru am y profiad gwerth chweil ac rwy'n dymuno'r gorau i'r cystadleuwyr eleni.''

Meddai Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru:

''Mae'r ysgoloriaeth hon yn tyfu o nerth i nerth bob blwyddyn ac wedi gwobrwyo pobl talentog iawn dros yr un mlynedd ar ddeg diwethaf. Mae'n cynnig cyfle euraid i'r enillydd ddatblygu ymhellach yn eu maes yn ogystal â chreu cysylltiadau gwerthfawr ym myd y celfyddydau. Hoffwn ddiolch yn fawr i Bryn am ei gefnogaeth gyson a hoffwn ddymuno'n dda i'r ysgoloriaeth eleni.''

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 yn Abertawe a'r Fro ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

Friday 4 June 2010

PRESS RELEASE

2010 Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru Scholarship

By the end of tomorrow we will know which contestants from the Ceredigion Urdd Eisteddfod will be invited to compete for the 2010 Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru Scholarship.

Competing for the financial prize of £4,000 will be the winners from the following under 25 competitions; theatrical performance, recitation, song from a musical, instrumental solo, solo, folk singing solo, cerdd dant solo, and the individual folk dance.

The scholarship competition this year will be held on Saturday night, 16 October 2010 in Pafiliwn Pontrhydfendigaid. Before then, the eight successful competitors will attend master classes, during which they'll receive training and advice from experts in their fields.

The £4,000 will be used by the winner as further training in a specialised field. Last year's winner, Catrin Angharad Roberts, from Anglesey has benefited immensely from the experience:

"Winning Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru Scholarship last year was a great experience. I thoroughly enjoyed the competition and found both the master classes and the concert itself to be extremely beneficial. I have since sung in many concerts and competed at local Eisteddfodau with Llan Bob Man, a boys choir I've recently set up on Anglesey.''

Catrin is currently working as a classroom assistant at Ysgol Gynradd Llannerchymedd, and has been accepted to follow a teaching course at Bangor University in September. Next year, Catrin hopes to use her scholarship to produce and release a CD of her best work as she explains:

‘‘I’ve recently started attending singing lessons at Y Galeri, Caernarfon with Mary Lloyd Jones, something which I’ve always wanted to do. Next year, I would like to record a CD and the scholarship will no doubt help me to achieve this goal. I would like to thank Bryn Terfel and Urdd Gobaith Cymru for this worthwhile experience and wish this year’s contestants well.’’

Says Efa Gruffudd Jones, Urdd Gobaith Cymru’s Chief Executive:

‘‘This scholarship continues to grow from strength to strength each year and has awarded many talented young people over the past eleven years. It offers the winner a unique opportunity to develop further within their chosen field and make valuable contacts in the arts world. I would like to take this opportunity to thank Bryn Terfel for his continuing support and wish this year’s scholarship the best of luck.’’

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360

- Urdd Gobaith Cymru is Wales’ leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.